



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## **Canllawiau ar 'Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru'**

Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig.

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin 2017

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**Cynulleidfa:** Pob unigolyn a sefydliad sy'n ymddiddori mewn materion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a anelir at bobl hŷn yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Arbenigol, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

**Trosolwg:** Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

**Camau i'w cymryd:** Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth:** Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol  
Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol  
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Llywodraeth Cymru  
Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

VAWDASV.LlywodraethCymru-WelshGovernment@wales.gsi.gov.uk

**Copiâu ychwanegol:** Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/gwybodaeth-chanllawiau-ar-gam-drin-domestig-thrais-rhywiol-diogelu-pobl-hwn-60-yng>

**Dogfennau cysylltiedig:**

- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r themâu allweddol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ganllawiau 'Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru'. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 7 Rhagfyr 2015 a 29 Chwefror 2016.

Mae'n amlinellu sut mae'r ymatebion wedi llywio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r canllawiau. Bydd yr adroddiad yn amlinellu themâu cyffredinol yr adborth ac yn canolbwyntio'n bennaf ar yr adborth hwnnw a gyflwynwyd sawl tro.

Nid oes modd cynnwys sylwadau unigol na darnau unigol o adborth yn y ddogfen hon ond mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ystyried yn unigol. Mae ymatebion llawn pob unigolyn neu sefydliad hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar wahân.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae pob ymateb a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei werthfawrogi ac wedi cael ei ystyried yn ofalus.

## Ymatebwyr

Ymatebodd 41 o unigolion a/neu sefydliadau i'r ymgynghoriad. Ceir crynodeb o'r ymatebwyr isod:

Proffil y sefydliad	Nifer yr ymatebion unigol
Tai	2
Llywodraeth Leol/Awdurdod Lleol	11
Iechyd	9
Awdurdod Tân ac Achub	2
Yr Heddlu/Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu	2
Gwasanaeth Prawf	1
Grwpiau sector/â diddordeb arbenigol	14
<b>Cyfanswm</b>	<b>41</b>

*Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys yr unigolion neu'r sefydliadau hynny a ofynnodd i aros yn ddiennw.*

- Action on Elder Abuse Cymru
- Age Cymru
- Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
- Cydweithrediad rhwng Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Dinas Caerdydd

- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Sir Ddinbych/Gwasanaethau Cymorth Cymunedol/Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir
- Cymorth i Ferched Cymru
- Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan
- Diverse Cymru
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd yng Nghymru
- Gwasanaeth Diogelu Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg
- Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol Pobl Hŷn yng Nghymru
- Fforwm Strategaeth 50+ y Fro
- Llwybrau Newydd
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cyngor Gwynedd
- Safe Lives
- Stepping Stones Gogledd Cymru
- Tai Pawb
- Tîm Rhanbarthol VAWDASV Gwent
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth y Goroewyr

### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar bob cam o lunio'r canllawiau. Sefydlwyd Grŵp Llywio, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid â gwybodaeth arbenigol am faterion sy'n berthnasol i bobl hŷn sy'n profi, neu sydd wedi profi, cam-drin domestig, i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau.

Ymhlith aelodau'r Grŵp roedd cynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gwasanaethau arbenigol adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru, sefydliadau iechyd ac academydd blaenllaw sy'n arbenigo yn y maes hwn.

## **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y canllawiau fel y'u drafftwyd. Fodd bynnag, gofynnwyd am egluro'r diffiniadau a ddefnyddiwyd drwy gydol y ddogfen, yn ogystal â rhagor o wybodaeth am ddiogelu, prosesau adrodd a llwybrau atgyfeirio. Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol am weithio gyda thramgwyddwyr a gwasanaethau mewn sawl iaith.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at bwysigrwydd astudiaethau achos er mwyn darparu enghreifftiau go iawn o'r broses gwneud atgyfeiriadau.

## **Dadansoddi'r ymatebion fesul cwestiwn**

**Cwestiwn 1: Mae'r canllawiau hyn yn nodi bwriad i ddarparu gwybodaeth am arferion da. A yw'n mynd yn ddigon pell yn hyn o beth?**

### **Pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen?**

1. Nododd nifer o'r ymatebwyr fod y diffiniadau yn y canllawiau yn rhy gymhleth, yn enwedig o ran y canlynol:
  - Cam-drin Domestig
  - Pobl hŷn
  - Cam-drin pobl hŷn
2. Cafwyd sawl sylw na roddwyd digon o sylw i drais rhywiol.
3. Nododd yr ymatebwyr nifer o fylchau mewn perthynas ag e-ddysgu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a modelau penodol eraill; cymorth lleol a manylion cyswllt.
4. Codwyd pryder bod yr adnoddau a oedd yn cael eu hargymell yn cael eu cynnig gan un darparwr (e.e. adnoddau Safelives – IDVA/ISVA (Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol/Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol)).
5. Cafwyd adborth cadarnhaol a negyddol (ond cadarnhaol ar y cyfan) ynglŷn â MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg). Roedd hyn yn cynnwys ceisio eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng cyfarfodydd MARAC a POVA (Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed). Nododd yr ymatebwyr waith MARAC mewn fforymau amlasiantaeth.
6. Gwnaed sylwadau bod y canllawiau yn strategol/yn cael eu harwain gan bolisi yn hytrach na bod yn ganllawiau i ymarferwyr/staff rheng flaen.
7. Awgrymwyd llunio dogfennau ar wahân er mwyn ymchwilio i faterion/atebion yn fanylach. Er, i'r gwrthwyneb, nodwyd hefyd y gall ddrysu ymarferwyr os oes rhagor o ganllawiau yn ymwneud yn benodol â phobl hŷn.
8. Gofynnwyd am fwy o fanylion ynghylch argaeledd gwasanaethau, prosesau atgyfeirio, meini prawf, cymorth a chyfeiriadau.
9. Nododd yr ymatebwyr hyblygrwydd 'Gofyn a Gweithredu' o ran diwallu anghenion sefydliadol.

10. Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau ar yr adran rheolaeth orfodol, gan ofyn yn benodol a oedd yr adran yn ddigonol.
11. Nodwyd bod y canllawiau yn ailadroddus.
12. Gwnaed sylwadau am y canllawiau 'Gofyn a Gweithredu' a'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r ddwy ddogfen.
13. Soniwyd am weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig y 'Ddyletswydd i Adrodd' a'r 'Ddyletswydd i Ymholi'.

**Cwestiwn 2: Pa enghreifftiau o arferion da sydd ar gael ar hyd a lled Cymru y dylid cyfeirio atynt yn y canllawiau hyn? Ystyriwch enghreifftiau o ddarparu gwasanaethau, offer, dogfennaeth a chytundebau partneriaeth.**

1. Crybwyllwyd proses MARAC gan sawl un – mewn cyd-destun cadarnhaol ar y cyfan.
2. Cafwyd sawl cyfeiriad at wahanol fforymau Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol lleol ledled Cymru yn rhannu arfer da ac yn sicrhau cysondeb.
3. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cynnwys testun am y ffordd y mae MARAC yn helpu dioddefwyr.
4. Nodwyd prosiect 'Dewis' Prifysgol Aberystwyth fel enghraifft o arfer da.
5. Crybwyllodd sawl ymatebydd DASH – RIC (rhestr wirio risgiau).
6. Cytunodd yr ymatebwyr fod gwiriadau dyddiol yn amhrisiadwy.
7. Awgrymwyd y dylid ychwanegu'r rhaglen Cam-drin Domestig Integredig Prawf.

**Cwestiwn 3: Mae'n bwysig bod gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol yn integreiddio â phrosesau diogelu statudol presennol. Beth arall ddylai'r canllawiau hyn eu cynnwys i egluro'r ymarfer o ran y materion hyn?**

1. Awgrymodd yr ymatebwyr y canlynol:
  - Astudiaethau achos;
  - Manylion cyswllt prif wasanaethau;
  - Mae angen i feini prawf a llwybrau atgyfeirio/dyletswydd fod yn gliriach.
2. Nododd nifer o'r ymatebwyr fod y siart llif yn ddryslyd; awgrymwyd defnyddio mwy nag un siart llif yn dangos llwybrau ar wahân ac y byddai croestoriadau clir yn fwy defnyddiol.
3. Ymhlith y sylwadau ynghylch ymarferoldeb y canllawiau, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai nodyn canllaw i Ymarferwyr yn ddefnyddiol.

4. Sylwadau unigol eraill ond i'w hystyried:

- Cysoni Cam-drin Domestig a Diogelu yn debygol o ddibynnu'n sylweddol ar adnoddau lleol;
- Cynrychiolaeth gyson diogelu oedolion o fewn MARAC;
- Cynnwys cysylltiadau rhwng proses risg oedolion/POVA/ MARAC;
- Dim cyfeiriad at ddogfennau: 'Mewn Dwylo Diogel' neu 'Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed' – bylchau y bydd gweithwyr proffesiynol yn eu cwestiynu.
- Mae angen i gam-drin domestig gael ei gofnodi yn ei gategori ei hun fel bod gwell syniad o'r gwasanaethau sydd eu hangen;
- Dim gwahaniaeth clir rhwng sefydliadau a phrosesau statudol a gwirfoddol;
- Dylid cyfeirio at ganllawiau a rhaglenni hyfforddi eraill;
- Mae angen cynnwys cyfeiriad clir at gyfrifoldeb corfforaethol 'Gofyn a Gweithredu' - proses rhannu gwybodaeth ddiogel a chyfreithlon rhwng awdurdodau perthnasol, hyfforddiant priodol i ofyn ac ati;
- Ystyried dull o integreiddio prosesau a mesurau diogelu gwasanaethau oedolion o fewn proses MARAC fel rhan o weithredu 'Gofyn a Gweithredu'.

**Cwestiwn 4: Sut y gallai'r canllawiau hyn ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? A oes gennych unrhyw bryderon y gallai'r canllawiau hyn gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

1. Roedd yr ymatebwyr o'r farn nad oedd y Canllawiau yn cynnwys manylion am ddarparu gwasanaethau dwyieithog.
2. Awgrymwyd y dylid sicrhau bod yr holl wybodaeth/hyfforddiant/asesiadau ar gael yn newis iaith unigolion; dylid ystyried iaith gyntaf dioddefwyr a chynnig y gwasanaethau priodol. Aneglur pa gamau a gymerir yn weithredol i hwyluso hyn (a sut y caiff y gwasanaethau eu monitro).
3. Teimlwyd yn eang y gall y Canllawiau hyn gynyddu nifer y cleientiaid sy'n dod ymlaen – angen ystyried yr effaith ar wasanaethau.
4. Roedd yr ymatebwyr yn credu'n gryf y dylid cynnig cyfle cyfartal i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau.
5. Teimlwyd y dylai Llywodraeth Cymru atgoffa sefydliadau/awdurdodau o'u rhwymedigaeth(au) o ran y Gymraeg ac argymhell bod niferoedd digonol o hyfforddwyr Cymraeg ar gonsortia hyfforddi rhanbarthol.
6. Nodwyd bod ymchwil yn dangos bod defnyddio iaith gyntaf rhywun o gymorth a'i fod yn hawl yng Nghymru.

**Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle isod i'w nodi**

1. Ymhlith y sylwadau a wnaed roedd y canlynol:

- Byddai cysondeb oedran rhwng canllawiau/strategaethau yn cael ei groesawu; gallai 60+ fod yn rhwystr i ddatgelu (bydd pobl yn eu chwedegau cynnar yn ei chael hi'n anodd);
- Byddai canllawiau ar atgyfeirio, er enghraifft, SARC (Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol) ac ISVA (Cyngorydd Trais Rhywiol Annibynnol) yn ddefnyddiol;
- Angen mwy o wybodaeth am dramgwyddwyr;
- Dylid defnyddio'r term 'goroeswr' nid 'dioddefwr';
- Dylai fod gan bob sefydliad bolisi gweithle ar faterion VAWDASV (trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol);
- Angen egluro'r term gofalwr/darparwr gofal/gofal teuluol;
- Byddai ymgyrch yn y cyfryngau gan Lywodraeth Cymru yn helpu i dynnu sylw at faterion pobl hŷn;
- Gwybodaeth gyfyngedig am drais rhywiol (gan gynnwys nifer yr achosion);
- Diffyg eglurder yn y canllawiau; yn arbennig, y cysylltiadau rhwng cam-drin pobl hŷn a cham-drin domestig;
- Byddai canllawiau ar gofnodi ac adrodd digwyddiadau mewn ffordd gyson yn ddefnyddiol; hefyd egluro gweithdrefnau uwchgyfeirio/ffiniau;
- Dylai'r canllawiau ystyried yr hyn a ddisgwylir gan ofalwyr/yr effaith arnynt;
- Dylai'r canllawiau ganolbwyntio ar gynllun i ddiogelu unigolion.



**Datganiad ar y Camau Nesaf**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar ganllawiau 'Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru'.

Ystyriwyd gwelliannau arfaethedig i'r Canllawiau gan swyddogion o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Gwnaed diwygiadau lle y bo'n briodol, gan gynnwys ychwanegu astudiaethau achos a rhoi mwy o bwyslais ar brofiadau unigryw grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Ailstrwythurwyd y ddogfen er mwyn ymdrin ag adborth y dylid rhoi mwy o fanylion ymlaen llaw ac mae'r cynnwys ar ddiogelu a cham-drin domestig wedi cael ei gysoni. Ychwanegwyd cynnwys ar weithio gyda thramgwyddwyr ac adolygwyd dogfennaeth berthnasol a gwneud cysylltiadau lle bo modd.

Nid yw'r ddogfen wedi cael ei diwygio i adlewyrchu adborth lle mae testun yr adborth hwnnw yn ymwneud ag adnoddau neu brosesau nad yw Llywodraeth Cymru yn "berchen" arnynt. Y rheswm dros hyn yw mai cyrff/sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am ddiwygiadau o'r fath. At hynny, mae'r adnoddau a'r prosesau hyn yn cael adborth eang ac yn cael eu datblygu gan sawl ffynhonnell sydd wedi arwain at adolygiadau parhaus. Fodd bynnag, rhennir adborth ar y prosesau neu adnoddau hyn (fel MARAC a DASH) â'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am eu datblygu'n barhaus.

Mae'r diffiniadau a ddefnyddir yn y ddogfen hon wedi cael eu hadolygu a'u diwygio lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, daw sawl diffiniad yn uniongyrchol o ddeddfwriaeth (h.y. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Os felly, nid ydynt wedi cael eu diwygio.

Mae Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Hawliau'r Plentyn, a'r Gymraeg wedi cael eu drafftio ac maent ar gael gyda'r ddogfen ganllaw ddiwygiedig.

Cyhoeddir y Canllawiau o dan Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ym mis Mehefin 2017.